


DOGFEN 8.5

# Dogfen Gyfarwyddyd Cynllunio

National Grid (Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru)

*Regulation 5(2)(q) of the Infrastructure Planning  
(Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009*





# **Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru**

## **Cyfrol 4**

### **8.5 Dogfen Gyfarwyddyd Cynllunio**

National Grid  
National Grid House  
Warwick Technology Park  
Gallows Hill  
Warwick  
CV34 6DA

***Mae'r dudalen hon i fod yn wag***

<b>Rheolaeth y Ddogfen</b>			
<b>Priodweddau'r Ddogfen</b>			
<b>Sefydliad</b>	National Grid		
<b>Awdur</b>	LSTC		
<b>Cymeradwywyd gan</b>	Ken Guest (National Grid)		
<b>Teitl</b>	Dogfen Gyfarwyddyd Cynllunio		
<b>Cyfeirnod y Ddogfen</b>	Dogfen 8.5		
<b>Hanes y Fersiynau</b>			
<b>Dyddiad</b>	<b>Fersiwn</b>	<b>Statws</b>	<b>Disgrifiad/Newidiadau</b>
03/09/2018	A	Terfynol	Rhifyn 1 <sup>af</sup>

***Mae'r dudalen hon i fod yn wag***

## Cynnwys

<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>2</b>	<b>Cynlluniau a Ffigurau sydd ar gael</b>	<b>2</b>
2.1	Rhestr o'r Cynlluniau a'r Ffigurau sydd ar gael	2
2.2	Fformat y Cynlluniau	4
<b>3</b>	<b>Manylion y Cynlluniau</b>	<b>5</b>
3.1	Cynllun Lleoliad Cyffredinol (4.0.1)	5
3.2	Prif Gynllun Allwedd i Nodi Adran (4.0.2)	5
3.3	Cynlluniau Tir a gaiff ei effeithio (4.1)	7
3.4	Cynlluniau Tir (4.2)	7
3.5	Cynllun tir y goron a chategori arbennig (4.3)	9
3.6	Cynlluniau Gwaith (4.4)	10
3.7	Cynlluniau Mynediad a Hawliau Tramwy (4.5)	12
3.8	Cynlluniau Nodweddion Amgylcheddol Eraill (4.6)	13
3.9	Cynllun Safleoedd Statudol neu Anstatudol neu Nodweddion Cadwraeth Natur, Cynefinoedd a Dyfroedd (4.7)	14
3.10	Cynlluniau Cynefinoedd Gwarchoddedig, Cynefinoedd Pwysig neu Nodweddion Amrywiaeth Eraill (4.8)	15
3.11	Cyfrinachol: Cynefinoedd Rhywogaethau Gwarchoddedig - Cynlluniau Lleoliad Cartrefi Moch Daear (4.9)	15
3.12	Cynlluniau Safleoedd Statudol neu Anstatudol sydd â Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol (4.10)	15
3.13	Cynlluniau ar gyfer coed a gwrychoedd a allai gael eu heffeithio (4.11)	15
3.14	Cynlluniau Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (4.12)	17
3.15	Cynlluniau Dylunio (4.13)	17

<b>FFIGURAU</b>	
<b>Ffigur 1</b>	Y Datblygiad Arfaethedig
<b>Ffigur 2</b>	Enghraifft o Brif Gynllun
<b>Ffigur 3</b>	Enghraifft o ddull adnabod unigryw a labelu'r cynlluniau tir
<b>Ffigur 4</b>	Enghraifft o labelu lleiniau
<b>Ffigur 5</b>	Prif Gynllun Cynllun Tir y Goron a Chategori Arbennig
<b>Ffigur 6</b>	Dadansoddiad o waith arfaethedig
<b>Ffigur 7</b>	Enghraifft o labelu hawliau tramwy cyhoeddus
<b>Ffigur 8</b>	Enghraifft o goed gwahanol

<b>ATODIADAU</b>	
<b>Atodiad A</b>	Allwedd Cynllun Gorchymyn Cydsyniad Datblygu



# 1 Cyflwyniad

Yn National Grid, ein gwaith yw cysylltu pobl â'r ynni maen nhw'n ei ddefnyddio, pa un ai i ddarparu gwres a golau i'w cartrefi, neu i bweru ffatrioedd a swyddfeydd. Wrth i'r hen orsafoedd pŵer gau, mae angen cysylltu ffynonellau newydd o ynni â'n rhwydwaith, fel bod trydan yn parhau i fod ar gael ar unwaith yn ôl y galw.

Un o'r ffynonellau ynni newydd hyn yw gorsaf bŵer niwclear arfaethedig Wylfa Newydd ar Ynys Môn. Er mwyn cludo'r ynni o Wylfa Newydd ledled y Deyrnas Unedig, mae angen i National Grid ei gysylltu â'r rhwydwaith trydan foltedd uchel.

Nid yw'r rhwydwaith trydan presennol ar Ynys Môn ac yng ngogledd Gwynedd yn ddigonol i gario'r ynni y bwriedir ei gynhyrchu, felly mae angen i National Grid greu cysylltiad newydd rhwng Wylfa a Phentir yng Ngwynedd. Mae hyn yn ychwanegol at linell uwchben bresennol ar Ynys Môn. Gelwir y prosiect seilwaith newydd hwn yn Brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru

Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys yr egwyddorion a ganlyn:

- Ail linell uwchben 400kV rhwng gorsaf ynni niwclear arfaethedig Wylfa Newydd ar Ynys Môn ac is-orsaf Pentir yng Ngwynedd. Byddai'n mesur tua 30km o hyd a byddai'n cael ei hadeiladu gan ddefnyddio peilonau delltwaith;
- Twunnel i gludo'r trydan o dan Afon Menai ac AHNE Ynys Môn. Byddai'r twunnel yn mesur tua 4 cilomedr ac yn cynnwys Compownd Terfyn Selio Ceblau a Thŷ Pen Twunnel ym mhob pen;
- Estyniadau i'r is-orsafoedd presennol yn Wylfa a Phentir; a
- Gwaith arall - er enghraifft, ffyrdd mynediad dros dro i gyrraedd manau adeiladu a dymchwel peilonau, gwaith priffyrdd, compowndiau adeiladu, strwythurau sgaffaldau amddiffynnol, strwythurau pontydd, safleoedd gwaith peilonau a gwaith ategol.

I esbonio ein Datblygiad Arfaethedig, rydym wedi paratoi cyfres o ddogfennau, sy'n cynnwys mapiau a chynlluniau.

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi rhagor o fanylion penodol am y cynlluniau sydd ar gael (**Dogfennau 4.0.1 i 4.13**) ac mae'n rhoi arweiniad ar yr hyn a ddangosir ar bob cynllun. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd (**Dogfen 4.14**).

## 2 Cynlluniau a Ffigurau sydd ar gael

### 2.1 RHESTR O'R CYNLLUNIAU A'R FFIGURAU SYDD AR GAEL

Rydym wedi cyflwyno nifer o gynlluniau i ategu ein cais am ganiatâd, sydd i'w cael yng Nghyfrol 4 ein dogfennau cais (**Dogfennau 4.0.1 i 4.13**). Yn ychwanegol at y cynlluniau a'r darluniau hyn, rydym wedi cynhyrchu cyfres o gynlluniau, y cyfeirir atyn nhw fel ffigurau sy'n rhan o'r Datganiad Amgylcheddol (**Dogfennau 5.1 i 5.21**) sy'n rhoi gwybodaeth bellach am ein cais wrth eu darllen gyda'r Datganiad Amgylcheddol.

Er bod y cynlluniau'n dangos sawl agwedd ar y Datblygiad Arfaethedig, nid ydyn nhw'n egluro'r rhesymeg dros y dyluniad. Gellir dod o hyd i hyn yn Adroddiad Dylunio National Grid (**Dogfen 7.17**) a gyhoeddwyd law yn llaw â'r cais. Fel rhan o'r cais, caiff asesiad o'r effeithiau amgylcheddol posibl y gallai'r prosiect eu cael eu disgrifio yn y Datganiad Amgylcheddol (**Dogfennau 5.1 i 5.21**) ac fe'u crynhoir yn y Crynodeb Annhechnegol (**Dogfen 5.0**) a ddaw i'w ganlyn.

Y cynlluniau a gyhoeddwyd i ategu ein cais yw:

**4.0.1 Cynllun Lleoliad Cyffredinol** - y llwybr arfaethedig cyfan o Wylfa i Bentir.

**4.0.2 Prif Gynllun Allweddol** - mae hwn yn dangos yr adrannau daearyddol a fydd yn eich helpu i wybod pa gynllun rydych chi eisiau ei weld.

**4.1 Cynlluniau Tir yr effeithir arno** - yn dangos ffiniau'r holl dir a gaiff ei effeithio, lle mae National Grid yn bwriadu adeiladu'r cysylltiad.

**4.2 Cynlluniau Tir** - yn dangos y ffin lle mae National Grid yn bwriadu adeiladu'r cysylltiad a'r pwerau neu'r hawliau sydd i'w harfer dros y tir.

**4.3 Cynlluniau Tir Categori Arbennig a Chynlluniau Tir y Goron** - yn dangos y ffin lle mae National Grid yn bwriadu adeiladu'r cysylltiad ac unrhyw dir categori arbennig, fel tir comin, Tir y Goron neu dir sy'n eiddo i gyrff arbennig fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Nid oes gan bob rhan o'r llwybr arfaethedig gynlluniau Tir Categori Arbennig a Thir y Goron.

**4.4 Cynlluniau Gwaith** - yn dangos terfynau arfaethedig Gorchymyn Cydsyniad Datblygu National Grid, llwybr y datblygiad ym mhob adran a'r pellter y naill ochr a'r llall i'r llwybr arfaethedig lle gellir gwneud gwaith, a elwir yn 'Derfynau Gwyro'.

**4.5 Cynlluniau Mynediad a Hawliau Tramwy** - yn dangos unrhyw newid arfaethedig i ffyrdd cyhoeddus, llwybrau troed, llwybrau ceffylau a hawliau mordwyo a mynediad at y rhain.

**4.6 Cynlluniau Nodweddion Amgylcheddol Eraill:** yn dangos ardaloedd eraill o bwysigrwydd amgylcheddol penodol yng nghyffiniau ein cynigion.

**4.7 Cynlluniau Safleoedd Statudol neu Anstatudol neu Nodweddion Cadwraeth Naturiol, Cynefinoedd a Dyfroedd** - yn dangos lleoliadau sydd o bwysigrwydd amgylcheddol penodol, gan gynnwys ardaloedd sy'n bwysig o ran diogelu natur neu sy'n gynefinoedd a ddiogelir.

**4.8 Cynlluniau Cynefinoedd Gwarchoddedig, Cynefinoedd Pwysig neu Nodweddion Amrywiaeth Eraill** - yn dangos lleoliad cynefinoedd rhywogaethau gwarchoddedig.

**4.9 Cyfrinachol: Cynlluniau Cynefinoedd Rhywogaethau a Warchodir - Lleoliad Cartrefi Moch Daear** - yn dangos lleoliad rhywogaethau a warchodir a chartrefi moch daear. Oherwydd statws cyfreithiol rhywogaethau a warchodir a chartrefi moch daear, ni fydd y cynlluniau hyn ar gael i'r cyhoedd.

**4.10 Safleoedd neu Nodweddion Statudol neu Anstatudol y Cynlluniau Amgylchedd Hanesyddol** - yn dangos lleoliadau safleoedd archeolegol, henebion cofrestredig, adeiladau hanesyddol ac agweddau hanesyddol eraill ar y dirwedd.

**4.11 Cynlluniau Coed a Gwrychoedd a gaiff eu heffeithio o bosibl** - yn dangos coed a gwrychoedd y gallai National Grid effeithio arnyn nhw wrth adeiladu'r cysylltiad arfaethedig.

**4.12 Cynlluniau Gorchymyn Rheoleiddio Traffig** - yn dangos y mesurau rheoli traffig arfaethedig y byddai National Grid yn eu gweithredu wrth adeiladu'r cysylltiad arfaethedig.

**4.13 Cynlluniau Dylunio** - yn rhoi manylion am faint ac uchder y seilwaith newydd arfaethedig, gan gynnwys llinellau uwchben, is-orsaf a chompowndiau terfyn selio ceblau.

## 2.2 FFORMAT Y CYNLLUNIAU

Rhennir yr holl gynlluniau ategol yn adrannau, fel y gallwch chi nodi pa rannau o'n gwaith sy'n berthnasol i'r ardal sydd o ddiddordeb i chi, ac eithrio'r Cynlluniau Dylunio (**Dogfen 4.13**), sy'n dangos manylion cyffredinol yn ymwneud â'r llwybr arfaethedig. Mae allwedd ynghlwm wrth bob set o gynlluniau i'ch helpu i'w dehongli. Darperir yr allweddau ar gyfer yr holl gynlluniau hyn yn **Atodiad A** ar ddiwedd y ddogfen hon.

Rhennir y prosiect yn chwe phrif adran rhwng Is-orsafoedd Wylfa a Phentir (Adrannau A - F). Ar hyn o bryd mae Adrannau C a D yn cynnwys dau ddewis ar gyfer aliniad y llwybr. Fe welwch bod ein cynlluniau wedi eu rhannu i'r adrannau a ganlyn:

- Adran A: Wylfa i Rosgoch;
- Adran B: Rhosgoch i Landyfrydog;
- Adran C (Dewis A a Dewis B): Llandyfrydog i'r B5110 i'r gogledd o Dalwrn;
- Adran D (Dewis A a Dewis B): B5110 i'r gogledd o Dalwrn i Ceint;
- Adran E: Ceint i Afon Braint; ac
- Adran F: Afon Braint i Bentir.

## 3 Manylion y Cynlluniau

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am yr hyn y mae'r gwahanol gynlluniau a darluniau yn eu dangos. Er mwyn ei gwneud hi'n haws i ddeall y cynlluniau, mae'r lliwiau a'r symbolau a ddefnyddir ar gyfer y peilonau a'r llinellau uwchben yn gyson drwy gyfres y cynlluniau.

Ac eithrio'r Darluniau Dylunio (**Dogfen 4.13**), mae gan bob cyfres o gynlluniau Gynllun Allweddol penodol i'r adran ar y dechrau hefyd, sy'n dangos sut y rhannwyd yr adran benodol ymhellach i nifer o daflenni gwahanol i roi rhagor o fanylion am y Datblygiad arfaethedig (**Ffigur 2**).

### 3.1 CYNLLUN LLEOLIAD CYFFREDINOL (4.0.1)

Mae'r cynllun hwn yn dangos y lleoliad a golwg lefel uchel iawn o'r Datblygiad Arfaethedig. Mae'r cynllun yn dadelfennu'r gwaith yn waith adeiladu o'r newydd, gwaith addasu i'r llinell uwchben bresennol rhwng Wylfa a Phentir, ac mae'n nodi'r llinell uwchben bresennol na fydd yn cael ei heffeithio fel rhan o'n cynigion.

Mae'r cynllun hefyd yn dangos ardal llwybr y twnnel, lle bydd twnnel newydd o dan y Fenai yn cael ei adeiladu.

Mae mewnosodiad ar y cynllun yn dangos y ddau ddewis rydym yn gwneud cais amdany'n nhw, ond dim ond yr ardal lle mae'r dewisiadau'n wahanol iawn i'w gilydd sy'n cael eu dangos. Mae gwahaniaethau bach hefyd rhwng y ddau ddewis nad ydyn nhw wedi eu manylu yn y mewnosodiad hwn, a gellir eu gweld ar gynlluniau'r adrannau unigol ar gyfer adrannau C a D.


### 3.2 PRIF GYNLLUN ALLWEDD I NODI ADRAN (4.0.2)

Mae'r cynlluniau hyn yn helpu i roi cyfarwyddyd i chi a'ch galluogi i ddod o hyd i ardal neu adran ar hyd y Datblygiad Arfaethedig sydd o ddiddordeb i chi yn gyflym. Mae'r cynllun hwn yn dangos terfynau'r Gorchymyn, sy'n diffinio'r ardal lle bydd y Datblygiad Arfaethedig yn cael ei adeiladu, gan gynnwys yr holl dir a allai fod yn ofynnol ei sicrhau i gyflawni'r prosiect (**Ffigur 1**). Mae ein holl weithgareddau i adeiladu, cynnal a gweithredu'r cysylltiad newydd wedi eu cynnwys o fewn Terfynau'r Gorchymyn.


Mae'r cynllun hwn hefyd yn dangos chwe rhan ein prosiect. Dyma'r adrannau yr ydym wedi eu llunio ar gyfer ein cynlluniau, sy'n gyson ar draws cyfres y cynlluniau, ac eithrio'r Cynlluniau Dylunio (**Dogfen 4.13**).

Mae mewnosodiad ar y cynllun yn dangos y ddau ddewis rydym yn gwneud cais amdany'n nhw, ond dim ond yr ardal lle mae'r dewisiadau'n wahanol iawn i'w gilydd sy'n cael eu dangos. Mae gwahaniaethau bach hefyd rhwng y ddau ddewis nad ydyn nhw wedi eu manylu yn y mewnosodiad hwn. Fodd bynnag, gellir gweld y rhain ar gynlluniau'r adrannau unigol ar gyfer adrannau C a D.

**Ffigur 1: Y Datblygiad Arfaethedig**



**Ffigur 2: Enghraifft o Brif Gynllun**





### 3.3 CYNLLUNIAU TIR A GAIFF EI EFFEITHIO (4.1)

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos terfynau'r Gorchymyn, sy'n diffinio'r ardal lle gellid adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig, gan gynnwys yr holl dir y gellid bod ei angen i gyflawni'r prosiect. Dangosir terfynau'r Gorchymyn ar bob un o'r cynlluniau, ac eithrio'r Cynlluniau Dylunio (**Dogfen 4.13**).

### 3.4 CYNLLUNIAU TIR (4.2)

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos y mathau o bwerau tir statudol rydym yn bwriadu eu ceisio ar gyfer y tir o fewn Terfynau'r Gorchymyn. Rhennir y bwerau tir hyn yn leiniau tir a rhoddir rhif plot unigryw ar eu cyfer, y gellir ei ganfod yn y Llyfr Gorchwyl (**Dogfen 3.3**). Mae chwe dosbarth gwahanol o bwerau tir yn ein cais, wedi eu rhannu'n ddau gategori:

#### Y Pŵer i Gaffael Buddiannau, Creu a Chaffael Hawliau a Phennu Cyfyngiadau

- Dosbarth 1: Caffael Tir yn Orfodol - Mae hyn yn golygu caffael holl fuddiannau a hawliau'r tir. Dyma lle bydd National Grid yn prynu'r tir - er enghraifft, lle byddwn yn adeiladu adeiladau parhaol, fel yn y Tai Pen Twnnel a'r estyniad i is-orsaf Pentir;
- Dosbarth 2: Caffael Gorfodol Tir mwy na 9 metr o dan y wyneb yn unig - Mae hyn yn golygu caffael buddiant mewn strata o'r isbridd / tir o dan lefel y tir. Mae hyn yn berthnasol i ran twnnel y prosiect lle mae angen i National Grid gael buddiant tir sy'n fwy na 9 metr o dan yr wyneb er mwyn i ni adeiladu ein twnnel. Mae'r buddiant yn ein galluogi i weithredu a chynnal prif elfen twnnel y Datblygiad Arfaethedig. Bydd faint o dir sydd ei angen arnom ar ôl i ni adeiladu'r twnnel yn llai na'r hyn a ddangosir ar hyn o bryd. Y rheswm am hyn yw na fyddwn yn gwybod yn union pa dir sydd ei angen arnom nes byddwn yn dechrau ei adeiladu. Mae'r Datganiad Rhesymau a Darluniau Dylunio yn rhoi rhagor o fanylion am hyn;
- Dosbarth 3: Caffael Hawliau Gorfodol ar gyfer y Datblygiad Awdurdodedig - Mae hyn yn golygu caffael hawliau ar wyneb y tir. Mae hyn yn berthnasol i'r rhannau o'r prosiect sydd uwchben y ddaear, fel adrannau'r llinell uwchben newydd. Bwriad yr hawliau hyn yw ein galluogi i adeiladu, gweithredu a chynnal y Datblygiad Arfaethedig;
- Dosbarth 4: Caffael Gorfodol Hawliau Mynediad - Mae hyn yn golygu caffael hawliau ar wyneb y tir ar gyfer mynediad. Mae'r hawliau hyn fel y gallwn fynd at ein prosiect i'n galluogi i adeiladu, gweithredu a chynnal y Datblygiad Arfaethedig;


#### Defnydd dros dro o dir

- Dosbarth 5: Defnydd Dros Dro ar gyfer Adeiladu, Lliniaru, Cynnal a Chadw a Datgymalu - Mae hyn yn golygu caffael hawliau dros dro ar wyneb y tir. Mae'r hawliau hyn fel y gallwn ni adeiladu a chynnal y Datblygiad Arfaethedig. Dim ond dros dro y byddwn ni'n defnyddio'r ardaloedd hyn o dir; a
- Dosbarth 6: Defnydd Dros Dro ar gyfer Mynediad - Mae hyn yn golygu defnyddio hawliau dros dro ar wyneb y tir ar gyfer mynediad dros dro. Mae'r

rhain fel y gallwn gael mynediad dros dro at y Datblygiad Arfaethedig, a dim ond dros dro y byddwn ni'n defnyddio'r ardal o dir.


Ar y cynlluniau tir, rhoddir cyfeirnod unigryw i bob un o'r lleiniau tir unigol ac maen nhw wedi cael eu labelu, fel y dangosir yn **Ffigur 3**.

**Ffigur 3: Enghraifft o ddull adnabod unigryw a labelu'r cynlluniau tir**



Mae'r rhifau lleiniau hyn - er enghraifft, A1-049, yn cyfeirio at yr adran a'r dudalen lle dangosir y llain. Er enghraifft, mae'r llythyren (A) yn cyfeirio at adran y llain o dir, mae'r rhif sy'n dilyn y llythyren (1) yn nodi ar ba ddalen yn yr adran honno y mae'r llain, a'r rhif ar ôl y cysylltnod yw rhif y llain ar y daflen honno. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hegluro yn **Ffigur 4**.

**Ffigur 4: Enghraifft o labelu lleiniau**






### 3.5 CYNLLUN TIR Y GORON A CHATEGORI ARBENNIG (4.3)

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos unrhyw dir a ddiffinnir fel Tir y Goron neu Dir Categori Arbennig. Mae'r tir wedi ei rannu i'r un lleiniau a ddangosir ar y Cynlluniau Tir, a defnyddir yr un rhifau fel y dangoswyd yn **Ffigur 4**. Dim ond y lleiniau sy'n Dir y Goron neu'n Dir Categori Arbennig sy'n cael eu dangos. Mae'r Cynlluniau Allweddol ar gyfer y cynlluniau hyn ychydig yn wahanol gan mai dim ond taflenni sydd â thiroedd sy'n cael eu heffeithio sy'n cael eu hamlygu, gyda thafleuni heb Dir Categori Arbennig wedi eu lliwio'n llwyd (**Ffigur 5**) gan nad yw'r rhain yn cael eu darparu gyda'r set o gynlluniau.

Gellir crynhoi'r ddau fath o dir fel a ganlyn:

- Tir y Goron yw tir â budd y Goron neu fudd Dugaeth, ac mae'n cynnwys buddiannau sy'n perthyn i un o Adrannau'r Llywodraeth; a
- Diffinnir Tir Categori Arbennig fel y tir a nodwyd fel rhan o dir comin, tir agored, tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, neu randir gardd maes neu danwydd.

**Ffigur 5: Prif Gynllun Cynllun Tir y Goron a Chategori Arbennig**



### 3.6 CYNLLUNIAU GWAITH (4.4)

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos agweddau parhaol y Datblygiad Arfaethedig a ddisgrifir yn Atodlen 1 yn ein Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft (**Dogfen 2.1**). Mae'r cynlluniau'n dangos llinellau canol alinio arfaethedig y gwaith llinellol sy'n ffurfio ein cais (Rhifau Gwaith (2-7, 8g, 9 a 10), ynghyd â lleoliadau dangosol peilonau ar gyfer y llinell uwchben. O ran y gwaith llinellol parhaol (y llinell uwchben a'r prif dwanel (gan gynnwys ceblau), a fydd yn ddarostyngedig i'r Terfynau Gwyo, dangosir llinellau cychwyn a therfynu er dibenion adnabod yn unig, ac maen nhw'n ymwneud â phrif elfennau'r gwaith yn unig. Dangosir yr ardaloedd lle gellir lleoli Tai Pen Twanel a Therfynau Selio Ceblau a gwaith ar Is-orsafoddedd ar y cynllun hefyd, yn ogystal ag ardaloedd y compowndiau adeiladu.

Mae'r cynlluniau hefyd yn dangos y Terfynau Gwyo rydym yn gwneud cais amdany'n nhw, sy'n rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ni yn ein dyluniad mewn perthynas â'r gwaith llinellol. Rydym wedi cymryd ymagwedd safonol at y Terfynau Gwyo ar y rhan fwyaf o'r llwybr, ond mae rhai manau ar hyd y llwybr lle gall cyfyngiadau lleol olygu ein bod ni wedi gorfod eu cyfyngu. Cewch ragor o wybodaeth am y Terfynau Gwyo drwy edrych ar Gynllun Dylunio DCO\_DE/PS/10\_03 yn **Nogfen 4.13**.

Oherwydd y ffordd y mae ein llinell uwchben arfaethedig yn rhyngweithio â'r llinell uwchben bresennol, sy'n rhedeg o Wylfa i Bentir, rydym wedi rhannu'r gwaith ar gyfer adrannau'r llinell uwchben i'r categorïau a ganlyn:

- Llinell Uwchben Newydd - sef adrannau o linell uwchben sy'n gyfan gwbl newydd;
- Addasu'r Llinell Uwchben Bresennol - sef adrannau o'r llinell uwchben bresennol sydd i'w haddasu naill ai gyda gwifrau daearu newydd, dargludyddion neu sylfeini diwygiedig;
- Llinell Uwchben Bresennol i'w thynnu oddi yno - sef rhannau o'r llinell uwchben bresennol y byddwn yn cael gwared â nhw; a
- Llinell Uwchben Bresennol nad yw'n cael ei heffeithio - sef rhannau o'r llinell uwchben bresennol na fydd ein prosiect yn effeithio arny'n nhw.

Rydym hefyd wedi rhannu'r peilonau yn bedwar categori:

- Newydd;
- Presennol i'w haddasu;
- Presennol i'w tynnu oddi yno; a'r rhai
- Presennol nad ydyn nhw'n cael eu heffeithio.

Mae rhai peilonau ar ein cynlluniau wedi eu dangos fel rhai 'nad ydyn nhw'n cael eu heffeithio', ond mae'r llinell uwchben yn cael ei chategoreiddio fel un 'bresennol i'w


haddasu', sy'n nodi y bydd y wifren ddaearu yn cael ei newid, ond na fydd unrhyw newid i'r peilon.

Mae'r peilonau wedi eu rhifo'n unigol, e.e. 4AP001. 4AP002, ac mae'r rhifau hyn yn cyd-fynd â'r rhifau a ddefnyddiwyd gennym drwy ein hymgyngoriadau amrywiol ac yn ein deunydd ymgynghori. Mewn rhai lleoliadau, mae rhai rhifau peilonau'n absennol, fel 4ZA011. Mae hyn oherwydd bod y dyluniad wedi cael ei optimeiddio drwy waith dylunio pellach a newidiadau yn yr ymgynghoriad, a arweiniodd at dynnu rhai peilonau mewn rhai ardaloedd.

Yn ogystal, dangosir ardaloedd wedi eu cysgodi sy'n cael eu galw'n Waith nad yw'n Llinellol ar y cynlluniau hyn. Mae'r ardaloedd hyn yn cyfeirio at ardaloedd ar hyd ein prosiect nad ydyn nhw'n llinellol eu natur fel y Llinell Uwchben neu'r prif dwnnel. Mae'r ardaloedd Gwaith nad yw'n Llinellol yn cwmpasu egwyddorion sylfaenol pob estyniad ac addasiad i Is-orsafoedd a'r ddau Dŷ Pen Twannel a Therfynau Selio Ceblau (gan gynnwys y llwybrau mynediad parhaol) (Rhifau Gwaith (1,8 (ac eithrio 8g), 11 a 12)).

Mae'r Cynlluniau Gwaith yn dangos pecynnau gwaith ein prosiect, a ddisgrifir yn Atodlen 1 y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (**Dogfen 2.1**). Mae 12 pecyn gwaith yn rhan o'r prosiect hwn, wedi eu rhifo o 1 i 12, a dangosir y rhain yn **Ffigur 6**. Mae'r rhifau coch yn cyfeirio at waith parhaol nad yw'n llinellol, gan gynnwys Is-orsafoedd a Thai Pen Twannel, y rhifau glas yn cyfeirio at waith parhaol llinellol, gan gynnwys y llinellau uwchben a'r prif dwnnel, ac mae'r rhifau porffor yn cyfeirio at waith dros dro, fel y compowndiau adeiladu. Nodir y Rhifau Gwaith hyn ar ein Cynlluniau Gwaith ar ffurf llinellau toredig sy'n cyd-fynd ag Atodlen 1 y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft. Am ragor o fanylion ac eglurhad, dylid edrych ar y Cynlluniau Gwaith gyda'r canllaw hwn a'r darluniau eraill, gan gynnwys y darluniau dylunio.

**Ffigur 6: Dadansoddiad o waith arfaethedig**



### 3.7 CYNLLUNIAU MYNEDIAD A HAWLIAU TRAMWY (4.5)


Mae'r cynlluniau hyn yn dangos y pwyntiau mynediad newydd neu'r rhai sydd wedi eu newid oddi ar y briffordd gyhoeddus sydd eu hangen i adeiladu, gweithredu neu gynnal y Datblygiad Arfaethedig. Ym mhob un o'r pwyntiau a ddangosir, bydd angen i ni sicrhau bod ein cyfarpar a'n cerbydau yn gallu mynd a dod yn ddiogel wrth gysylltu â'r briffordd gyhoeddus. Yn y lle cyntaf, byddai'r mynedfeydd yn rhai dros dro, ond bydd angen i rai fod yn barhaol.

Mae pob un o'r pwyntiau mynediad newydd neu wedi eu haddasu hyn wedi cael rhif unigryw. Mae'r rhifau hyn yn y fformat a ganlyn, A1, A2, A3 ... B1, B2, B3. Mae'r llythyren yn cyfeirio at yr adran lle mae'r pwynt mynediad, a rhoddir rhif i bob un o'r pwyntiau mynediad ym mhob adran.

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n cael eu heffeithio gan y Datblygiad Arfaethedig a'r math o reolaeth rydym yn ei gynnig ar gyfer yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus hynny sy'n cael eu heffeithio.

Mae pob un o'r mathau rheoli hyn wedi eu dynodi â lliw arbennig a phwyntiau cyfeirio ar y cychwyn a'r diwedd, neu lle mae un rheolaeth Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cwrdd ag un arall (**Ffigur 7**). Mae'r pwyntiau cyfeirio hyn yn cysylltu ag Atodlenni 7 ac 8 o'n Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (**Dogfen 2.1**), sy'n helpu i nodi pa fath o reolaeth sy'n digwydd a'i leoliad. Er enghraifft, yn **Ffigur 7**, mae mynediad ar hyd Hawliau Tramwy Cyhoeddus 20/038/1 (glas) yn cael ei rwystro dros dro rhwng labeli coch RW2.1 a RW2.2, ac mae'n cael ei ddargyfeirio rhwng labeli porffor RWD2.1 a RWD2.2. Mae'r labeli wedi eu lleoli i'r gogledd a'r de yn y lle cyntaf, a lle nad oes modd gwneud hynny, i'r dwyrain a'r gorllewin.

**Ffigur 7: Enghraifft o labelu hawliau tramwy cyhoeddus**



Mae'r rhain hefyd yn dangos rhannau o'r ffordd / stryd lle bydd angen gosod rhwystrau dros dro wrth i ni ymgymryd â rhannau o'n gwaith. Rydym wedi cynnwys cynlluniau allweddol sy'n dangos y dargyfeiriadau dros dro rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith tra bydd y ffordd hyn yn cael eu rhwystro. Mae'r dargyfeiriadau ffordd dros dro wedi eu labelu yn yr un modd â'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

### 3.8 CYNLLUNIAU NODWEDDION AMGYLCHEDDOL ERAILL (4.6)

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos safleoedd o bwysigrwydd daearegol neu dirweddol yn unol â Rheoliad 5(2)(l)(i). Mae'r cynlluniau hyn yn dangos lleoliad Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn, Ardaloedd Tirwedd Arbennig (fel

y'u diffinnir gan fersiwn cyfansawdd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd), Llwybr Arfordirol Cymru ac Ynys Môn, golygfannau a hyrwyddir a lleoliad y Geoparc (GeoMôn). Cyflwynir asesiad o'r effeithiau ar AHNE Ynys Môn, Ardaloedd Tirwedd Arbennig a golygfannau a hyrwyddir a achosir gan y Datblygiad Arfaethedig yn y Datganiad Amgylcheddol, Pennod 7 (**Dogfen 5.7**). Mae asesiad o'r effeithiau ar Lwybrau Arfordirol Cymru ac Ynys Môn a achosir gan y Datblygiad Arfaethedig yn cael ei gyflwyno yn y Datganiad Amgylcheddol, Pennod 8 - Asesiad Gweledol (**Dogfen 5.8**), Pennod 15 - Sŵn Adeiladu (**Dogfen 5.15**), Pennod 16 - Sŵn Gweithredol (**Dogfen 5.16**), Pennod 17 - Elfennau economaidd-gymdeithasol (**Dogfen 5.17**) a Phennod 19 - Effeithiau yn ystod y Prosiect (**Dogfen 5.19**).

### 3.9 CYNLLUN SAFLEOEDD STATUDOL NEU ANSTATUDOL NEU NODWEDDION CADWRAETH NATUR, CYNEFINOEDD A DYFROEDD (4.7)

Mae'r cynlluniau yn dangos:

- Safleoedd Ramsar, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig posibl ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl,
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA),
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol a Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol yn unol â Rheoliad 5(2)(I)(i)<sup>1</sup>;
- Coetiroedd Hynafol a Gorchmynion Diogelu Coed yn unol â Rheoliad 5(2)(I)(ii)<sup>2</sup>; a
- Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Afonydd, Dalgylchoedd y Gyfarwyddeb, Dyfroedd Trosiannol y Gyfarwyddeb a Dyfroedd Arfordirol y Gyfarwyddeb yn unol â Rheoliad 5(2)(I)(iii)<sup>3</sup>.

Cyflwynir asesiad o'r effeithiau ar Safleoedd Ramsar, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig posibl ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl a achosir gan y Datblygiad Arfaethedig yn yr Adroddiad Dim Effeithiau Sylweddol (**Dogfen 5.23**) a Phennod 9 y Datganiad Amgylcheddol - Ecoleg a Chadwraeth Natur (**Dogfen 5.9**).

Cyflwynir asesiad o'r effeithiau ar y Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'r Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol a

---

<sup>1</sup> Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

<sup>2</sup> Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

<sup>3</sup> Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009



achosir gan y Datblygiad Arfaethedig ym Mhennod 9 y Datganiad Amgylcheddol - Ecoleg a Chadwraeth Natur (**Dogfen 5.9**).

Cyflwynir asesiad o'r effeithiau ar Goetiroedd Hynafol a Gorchmynion Cadwraeth Coed a achosir gan y Datblygiad Arfaethedig ym Mhennod 7 y Datganiad Amgylcheddol - Tirwedd (**Dogfen 5.7**) a Phennod 9 - Ecoleg a Chadwraeth Natur (**Dogfen 5.9**). Cyflwynir asesiad o'r effeithiau ar afonydd a dyfrffyrdd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a achosir gan y Datblygiad Arfaethedig yn **Nogfen 5.12.2.5** - yr Asesiad o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

### **3.10 CYNLLUNIAU CYNEFINOEDD GWARCHODEDIG, CYNEFINOEDD PWYSIG NEU NODWEDDION AMRYWIAETH ERAILL (4.8)**

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos Cynefinoedd Cam 1 a lleoliadau rhywogaethau gwarchodedig yn unol â Rheoliad 5(2)(I)(ii)<sup>4</sup>. Cyflwynir asesiad o'r effeithiau ar y cynefinoedd a'r rhywogaethau hyn a achosir gan y Datblygiad Arfaethedig ym Mhennod 9 y Datganiad Amgylcheddol - Ecoleg a Chadwraeth Natur (**Dogfen 5.9**).

### **3.11 CYFRINACHOL: CYNEFINOEDD RHYWOGAETHAU GWARCHODEDIG - CYNLLUNIAU LLEOLIAD CARTREFI MOCH DAEAR (4.9)**

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos lleoliad cartrefi moch daear sy'n cael eu heffeithio gan ein datblygiadau arfaethedig, neu sydd yn yr ardal gyfagos. Oherwydd sensitifrwydd cartrefi moch daear, mae'r cynlluniau hyn yn gyfrinachol ac ni fyddan nhw ar gael i'r cyhoedd.

### **3.12 CYNLLUNIAU SAFLEOEDD STATUDOL NEU ANSTATUDOL SYDD Â NODWEDDION AMGYLCHEDD HANESYDDOL (4.10)**

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos Henebion Cofrestredig, Adeiladau Rhestredig, Safleoedd Archeolegol ar gofnod yr amgylchedd hanesyddol a thirweddau hanesyddol. Cyflwynir asesiad o'r effeithiau ar y safleoedd hyn a achosir gan y Datblygiad Arfaethedig ym Mhennod 10 y Datganiad Amgylcheddol - yr Amgylchedd Hanesyddol (**Dogfen 5.10**).

### **3.13 CYNLLUNIAU AR GYFER COED A GWRYCHOEDD A ALLAI GAEL EU HEFFEITHIO (4.11)**

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos y coed a'r gwrychoedd a allai gael eu heffeithio gan y Datblygiad Arfaethedig (**Ffigur 8**). Diffinnir coeden fel planhigyn coediog lluosflwydd sydd â phrif foncyff ac fel arfer sydd â choron nodedig gyda diamedr

---

<sup>4</sup> Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

coes (sy'n cael ei fesur 1.5m uwchlaw lefel y ddaear) o 75mm neu ragor. Diffinnir gwrych fel unrhyw linell ffin o goed neu llwyni dros 10m o hyd a llai na 5m o led ar y gwaelod, ar yr amod bod y coed neu'r llwyni fwy neu lai'n ddi-dor ar un adeg.


Mae'r coed a'r gwrychoedd wedi eu rhannu'n bedwar categori fel a ganlyn:

- Heb eu heffeithio - yn golygu coed unigol, rhannau o wrychoedd neu grwpiau o goed nad ydyn nhw'n cael eu heffeithio gan y dyluniad arfaethedig fel y dangosir ar y Cynlluniau Gwaith (Dogfen 4.4) neu drwy ddefnyddio'r hyblygrwydd y gwneir cais amdano o fewn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu, a elwir yn Derfynau Gwyo;
- Effaith bosibl - yn golygu bod coed unigol, rhannau o wrychoedd neu grwpiau o goed yn annhebygol o gael eu heffeithio gan y dyluniad arfaethedig fel y dangosir ar y Cynlluniau Gwaith (Dogfen 4.4);
- Yn cael eu heffeithio / eu rheoli - yn golygu rheoli trwy docio, bôn-docio, barbro, lleihau uchder neu gael gwared ar goed unigol ac adrannau o wrychoedd neu un neu ragor o goed o fewn grŵp. Mae'r rhai a ddangosir fel rhai wedi eu heffeithio / wedi eu rheoli yn seiliedig ar y dyluniad arfaethedig a ddangosir ar y Cynlluniau Gwaith (**Dogfen 4.4**); ac
- Wedi eu tynnu - yn golygu tynnu coed unigol ac adrannau o wrychoedd neu gael gwared ar un neu ragor o goed o fewn grŵp, ac yn seiliedig ar y dyluniad arfaethedig fel y dangosir ar y Cynlluniau Gwaith (**Dogfen 4.4**).

Gallai'r effaith ar goed unigol, rhannau o wrychoedd neu grwpiau o goed (h.y. a ddangosir fel rhai 'Wedi eu tynnu', 'Yn cael eu heffeithio / eu rheoli' ac 'Effaith bosibl') newid lliw drwy ddefnyddio hyblygrwydd y gwneir cais amdano yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, a elwir yn Derfynau Gwyo.

Mae'r data ar gyfer Coetiroedd Hynafol a Gorchymynion Cadwraeth Coed a ddefnyddiwyd yn y cynlluniau hyn wedi dod o nifer o ffynonellau, ac fe'i defnyddiwyd ar wahanol raddfeydd. Ceir rhagor o wybodaeth am sut gallai'r coed a'r gwrychoedd hyn gael eu heffeithio yn ein Datganiad Amgylcheddol.

**Ffigur 8: Enghraifft o gategoriâu coed gwahanol**





### 3.14 CYNLLUNIAU GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG (4.12)

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos hyd a lled y gorchmynion rheoleiddio traffig arfaethedig sy'n ofynnol er mwyn i ni gael mynediad i adeiladu, gweithredu a chynnal y Datblygiad Arfaethedig. Mae gan y gorchmynion rheoleiddio traffig bwyntiau cyfeirio tebyg fel y dangosir yn **Ffigur 4**, e.e. TR1.1, sydd i'w gweld yn **Atodlen 13** y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (**Dogfen 2.1**).

### 3.15 CYNLLUNIAU DYLUNIO (4.13)

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos gwybodaeth ddylunio a allai eich helpu i gael dealltwriaeth fanylach o'n cynigion. Maen nhw'n darparu enghreifftiau darluniadol a dangosol o offer, a chynlluniau nodweddiadol y compowndiau, yr is-orsafoddedd a'r Twannel, y gellid eu defnyddio fel rhan o'n prosiect. Mae tri math o'r rhain:

- Cynlluniau Paramedr - mae'r cynlluniau hyn yn dangos paramedrau sy'n diffinio'r parthau lle byddai gwaith penodol yn cael ei wneud;
- Cynlluniau Dangosol - mae'r cynlluniau hyn yn dynodi'r ffordd rydym yn disgwyl i'r datblygiad gael ei drefnu. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn gynlluniau sy'n dangos materion daearyddol-benodol, fel lleoliad Tai Pen Twannel a Chompowndiau Selio Ceblau, neu rannau o'r datblygiad yn is-orsaf Pentir; a hefyd
- Cynlluniau Darluniadol - mae'r cynlluniau hyn yn dangos un ffordd y gellid trefnu datblygiad, neu offer nodweddiadol y gellid ei ddefnyddio. Mae'r rhain yn dueddol o fod yn gynlluniau sy'n dangos mathau nodweddiadol o offer, fel offer is-orsaf.

Rydym wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth ychwanegol am yr hyn a ddangosir ar y cynlluniau dylunio gwahanol i fod o gymorth gyda'u dehongli nhw, a nodir hyn isod.

#### **Rhestr o Gynlluniau Dylunio (DCO\_DE/KP/01)**

Mae'r cynllun hwn yn rhestru'r holl gynlluniau dylunio a gynhyrchwyd i ategu ein cais Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Mae'n darparu cyfeiriadau, teitlau, rhifau taflenni a diwygiadau'r cynlluniau.

#### **Cynllun Paramedr Is-Orsaf - Wylfa (DCO\_DE/PS/01\_01)**

Mae'r cynllun hwn yn dangos cynllun presennol ac offer/seilwaith is-orsaf Wylfa, ar Ynys Môn. Mae'r cynllun hwn hefyd yn tynnu sylw at y gwahanol leoliadau lle gellid gosod yr addasiadau arfaethedig i'r is-orsaf.

### **Cynllun Dangosol Yr Is-Orsaf – Wylfa (DCO\_DE/PS/01\_02)**

Mae'r cynllun hwn yn dangos cynllun dangosol Is-orsaf Wylfa ar Ynys Môn, gan amlygu adeilad ac offer presennol yr is-orsaf, y compownd adeiladu dros dro arfaethedig a'r offer is-orsaf y bwriedir ei osod yno.

### **Golwg Dangosol yr Is-Orsaf – Wylfa (DCO\_DE/PS/01\_03)**

Mae'r cynllun hwn yn dangos golwg drychiad dangosol o is-orsaf Wylfa gan gynnwys adeilad presennol yr is-orsaf a'r seilwaith/offer, y nenbontydd arfaethedig, y peilonau a'r offer is-orsaf i'w gosod.

### **Cynllun Paramedr Is-Orsaf – Pentir (DCO\_DE/PS/01\_04)**

Mae'r cynllun hwn yn dangos cynllun presennol ac offer/seilwaith is-orsaf Pentir yng ngogledd Gwynedd. Mae'r cynllun hwn hefyd yn tynnu sylw at y gwahanol lleoliadau lle gallai offer yr is-orsaf arfaethedig gael eu lleoli.

### **Cynllun Dangosol yr Is-Orsaf – Pentir (DCO\_DE/PS/01\_05)**

Mae'r cynllun hwn yn dangos cynllun dangosol is-orsaf Pentir, gan amlygu'r adeilad ac offer presennol yr is-orsaf, ffin arfaethedig yr is-orsaf, compowndiau adeiladu/mynedfeydd dros dro arfaethedig a lleoliadau arfaethedig offer a seilwaith amrywiol.

### **Golwg Dangosol yr Is-Orsaf – Pentir (DCO\_DE/PS/01\_06)**

Mae'r cynllun hwn yn dangos golwg drychiad dangosol o is-orsaf Pentir gan gynnwys cyfarpar presennol yr is-orsaf, y nenbontydd arfaethedig, y peilonau a'r offer is-orsaf i'w gosod.

### **Darlun o Offer yr Is-Orsaf (DCO\_DE/PS/01\_07 i DCO\_DE/PS/01\_10)**

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos gwahanol fathau o offer a seilwaith y gellir eu gosod yn ystod gwaith ar y Datblygiad Arfaethedig.

### **Proffil Esboniadol y Llinellau Uwchben (DCO\_DE/PS/02)**

Mae'r cynllun hwn yn darparu enghraifft fanwl gyda nodiadau o broffil llinell uwchben sy'n egluro sut dylid dehongli'r proffiliau gwirioneddol (gweler isod). Mae'r cynllun hwn yn disgrifio pa agweddau gwahanol ar y proffil sydd i'w gweld, yr hyn y mae'r llinellau amrywiol yn eu cynrychioli ac at beth mae'r testunau gwahanol yn cyfeirio. Nid oes gan y proffil enghreifftiol hwn gysylltiad â'r prosiect, ac mae'r llinell uwchben a ddangosir yn ffug. Isod ceir rhestr o'r wybodaeth a ddangosir ar y proffiliau llinell uwchben:

- Rhifau peilonau, uchder uwchlaw lefel y ddaear ac ongl y gwyriad oddi wrth y llinell syth;
- Pellter rhwng peilonau cyfagos;
- Graddfa fertigol fel y'i diffinnir gan seilnod ordnans;
- Graddfa lorweddol o ongl y peilon blaenorol (graddfa fertigol yn 10 gwaith y raddfa lorweddol);
- Lleoliad y wifren ddaearu a dargludyddion;
- Proffil y dargludydd ar y tymheredd gweithredu uchaf;
- Lefel y tir ar hyd y llwybr a ddangosir;
- Croesfannau allweddol ar draws y llwybr; a
- Mapio'r Arolwg Ordnans (Mae hyn wedi ei gyfeirio fel bod y llinell uwchben yn cael ei dangos yn llorweddol).

